OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1570 (Cy.181)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Crucywel i Drecastell, Powys) (Gwaharddiad Traffig a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed 21 Mehefin 2011*

*Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain - Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt;

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Crucywel i Drecastell, Powys) (Gwaharddiad Traffig a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *“*cyfnod y gwaith*” (“works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7 ni caiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7 ni caiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7 ni caiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Mehefin 2011

***G Morgan***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### Mynydd Bychan, Trecastell

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 572 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt mynedfa Mynydd Bychan i bwynt 542 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt mynedfa Penvay.

### Penywern, Llansbyddyd

ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 565 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt mynedfa Penywern i bwynt 345 o fetrau i'r de o ganolbwynt mynedfa Penywern.

### Ivy Cottage, Bwlch

iii. Y darn hwnnw o’r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U0521 i ganolbwynt ei chyffordd â'r C0110.

### Man i'r Dwyrain o Bwlch

iv. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 317 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4560 i bwynt 160 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C0112.

### Kestrel Inn

v. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C0112 i ganolbwynt ei chyffordd â'r U0501.